Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Ionawr 2023

# Beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth ar gyfer polisi?

## Trosolwg

Yn ystod pandemig Covid-19, daeth yn gyffredin i beidio â defnyddio'r ymadrodd 'dilyn y wyddoniaeth'. Ond **gall yr hyn a olygir gan dystiolaeth amrywio yn ôl pwy sy'n gofyn, y cyd-destun a ffactorau eraill**. Gwnaethom gynnal gwaith ymchwil i ddadansoddi canfyddiadau gweithredwyr polisïau Cymru tuag at dystiolaeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn bwysig oherwydd byddant yn effeithio ar y rheswm y mae gwahanol weithredwyr polisïau yn defnyddio tystiolaeth neu beidio ac, yn y pen draw, ar sut y caiff polisi ei lunio.

I wneud y gwaith ymchwil hwn, gwnaethom ddefnyddio methodoleg Q – sef dull cymysg a ddatblygwyd i astudio agweddau a chanfyddiadau unigolion. Ystyr hyn yw bod cyfranogwyr yn graddio set o ddatganiadau ar beth yw tystiolaeth a'i rôl wrth lunio polisïau. Casglwyd y datganiadau hyn o'r llenyddiaeth bresennol, papurau newydd a chyfweliadau arbenigol. Wrth gyfarfod yn rhithwir (oherwydd pandemig Covid-19), gofynnwyd i bob cyfranogwr raddio'r datganiadau mewn siâp pyramid cytuno-i-anghytuno (+4 i -4); cymryd ffotograff o'r datganiadau terfynol wedi'u trefnu; a chwblhau holiadur byr am eu barn ar dystiolaeth.

Cynhaliwyd cyfweliadau â 34 o gyfranogwyr o bob rhan o gymuned bolisi Cymru, o **Weinidogion i weision sifil, staff y Senedd, yn ogystal â sefydliadau cymdeithas sifil ac academyddion**, i drafod eu canfyddiadau o dystiolaeth ar gyfer polisi.

## Canfyddiadau allweddol

**Mae ein canlyniadau'n datgelu pedwar proffil o ganfyddiadau ac agweddau tuag at dystiolaeth wrth lunio polisïau yng Nghymru: Delfrydwyr Llunio Polisi ar Sail Tystiolaeth (EBPM), Gwleidyddol, Pragmatyddion, a Chynhwysol.**

| | |
|---|---|
| **Delfrydwyr EBPM** | **Datganiadau allweddol y cytunwyd â nhw:**<br>• Rhaid i'r dystiolaeth fod yn drylwyr, yn glir ac wedi'i chyflwyno'n dda (+4)<br>• Mae gan lunwyr polisïau gyfrifoldeb i ddefnyddio tystiolaeth mewn ffordd ddiduedd (+4)<br><br>**Dyfyniadau allweddol:**<br>• "Fel swyddogion [Llywodraeth Cymru], ein gwaith ni yw dweud y gwir. Rhaid i chi bob amser roi cynrychiolaeth onest o'r ffeithiau."<br>• "Mae hapdreialon rheoledig (RCTs) yn ddefnyddiol ond dydw i ddim yn meddwl mai nhw yw'r safon aur." |

| | |
|---|---|
| **Gwleidyddol** | **Datganiadau allweddol y cytunwyd â nhw:**<br>• Ystyrir bod rhai mathau o dystiolaeth yn fwy dilys nag eraill (+3)<br>• Mae tystiolaeth yn wleidyddol yn y ffordd y caiff ei mynegi (+2)<br>• Mae'r hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth yn adlewyrchu cysylltiadau pŵer (+2)<br><br>**Dyfyniad allweddol:**<br>• "Efallai bod y math o dystiolaeth maen nhw [h.y. gwleidyddion] yn ei gwerthfawrogi yn wahanol o blaid i blaid…allwn ni ddim bod yn gwbl ddiduedd." |
| **Pragmatyddion** | **Datganiadau allweddol y cytunwyd â nhw:**<br>• Ni ellir mesur yr holl dystiolaeth (+4)<br>• Mae'r hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth yn amrywio rhwng proffesiynau (+4)<br><br>**Dyfyniad allweddol:**<br>• "Ar ôl bod yn y broses o lunio polisïau a derbyn ffynonellau tystiolaeth amrywiol, dydw i ddim yn meddwl fy mod erioed wedi teimlo y gallaf ddod i gasgliad ar y camau gweithredu yn hawdd o'r dystiolaeth. Mae yna farn bob amser dan sylw." |
| **Cynhwysol** | **Datganiadau allweddol y cytunwyd â nhw:**<br>• Tystiolaeth yw unrhyw beth sy'n helpu i dynnu darlun cyfoethog o fater (+4)<br>• Dylid cynhyrchu tystiolaeth yn systematig o ystod eang o astudiaethau (+4)<br>• Mae tystiolaeth yn helpu i ateb cwestiwn polisi (+3)<br><br>**Dyfyniad allweddol:**<br>• "Bydd unrhyw beth a fydd yn rhoi'r darlun cyfoethog hwnnw i chi o faes polisi yn dystiolaeth ddefnyddiol iawn, ni waeth sut y ceir gafael arni. |

## Delfrydwyr EBPM

**Mae'r ymatebwyr hyn yn credu y dylai tystiolaeth fod yn drwyadl, yn glir, ac wedi'i chyflwyno'n dda (safle +4) a bod gan lunwyr polisïau gyfrifoldeb i ddefnyddio tystiolaeth mewn ffordd ddiduedd (+4).** Ar gyfer yr ymatebwyr hyn, gellid cymharu tystiolaeth â gwirionedd a ffeithiau:

> *"Ein gwaith ni yw dweud y gwir fel swyddogion. Rhaid i chi bob amser roi cynrychiolaeth onest o'r ffeithiau."*

Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebwyr hyn yn gwbl gaeth i egwyddorion EBPM, er enghraifft, gan ei gwneud yn glir bod RCTs (Hapdreialon Rheoledig) *"yn ddefnyddiol ond dydw i ddim yn meddwl mai nhw yw'r safon aur"*. Amlygodd sylwadau o'r fath sut, **er eu bod yn cefnogi syniadau cyffredinol EBPM, fod angen dehongli hyn ym myd polisi go iawn.** Nid oedd egwyddorion EBPM clasurol, megis tystiolaeth feintiol, fel y math pwysicaf o dystiolaeth (-2), a thystiolaeth o'r hyn y gellir ei gyfrif a'i fesur (-1), wedi'u graddio'n gadarnhaol gan y proffil hwn.

Roedd gan bob cyfranogwr yn y proffil hwn raddau Meistr neu uwch, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio mewn llywodraeth (lleol neu genedlaethol) neu'r Senedd. Roeddent yn tueddu i fod â chefndir proffesiynol amrywiol, er bod y byd academaidd yn dominyddu.

## Gwleidyddol

**Mae'r ymatebwyr hyn yn credu bod yr hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth yn cael ei ddylanwadu gan wleidyddiaeth**. Roeddent yn cytuno bod 'tystiolaeth yn cael ei herio bob amser' (+2), 'bod tystiolaeth yn wleidyddol yn y ffordd y'i mynegir' (+2), a bod 'tystiolaeth yn adlewyrchu cysylltiadau pŵer' (+2); roedd yr ymatebwyr hyn yn graddio'n uwch nag unrhyw un arall o'r proffiliau. Pwysleisiodd y proffil hwn hefyd yr anawsterau o benderfynu beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth, gyda 'swm y dystiolaeth ar bwnc penodol o reidrwydd yn gymhleth' (+3), ac 'nid oes tystiolaeth glir bob amser ynghylch yr hyn sy'n gweithio ar fater penodol' (+4) yn cael eu graddio'n uchel.

**Nid oedd yr ymatebwyr gwleidyddol yn gwadu bob agwedd ar EBPM**. Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr sut roedd yn cytuno â'r datganiad bod gan lunwyr polisïau gyfrifoldeb i ddefnyddio tystiolaeth mewn ffordd ddiduedd, ond cydnabu eu bod yn gwasanaethu meistri gwleidyddol â rhyw agwedd wleidyddol benodol.

> *"Efallai bod y math o dystiolaeth maen nhw [h.y. gweinidogion] yn ei gwerthfawrogi yn wahanol o blaid i blaid […] Allwn ni ddim bod yn gwbl ddiduedd".*

Roedd y cyfranogwyr a gafodd eu cynnwys yn y proffil hwn wedi'u gwasgaru ar draws sefydliadau, gyda'u lefel addysgol yn amrywio o radd i PhD, a'u cefndir proffesiynol yn cynnwys elusennau, y byd academaidd a pholisi.

## Pragmatyddion

**Mae'r ymatebwyr hyn yn credu y bydd yr ateb i 'yr hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth' yn amrywio yn ôl y gwahanol ffactorau sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol.** Daw hyn i'r amlwg yn y ddau ddatganiad y cytunwyd arnynt fwyaf: 'ni ellir mesur yr holl dystiolaeth' (+4) a 'mae'r hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth yn amrywio rhwng proffesiynau' (+4). Er bod y proffil hwn yn cyfuno agweddau a chanfyddiadau o'r proffiliau EBPM a Gwleidyddol, roedd yn gogwyddo mwy tuag at yr olaf. Er enghraifft, roedd Pragmatyddion yn cytuno'n fwy â datganiadau fel 'tystiolaeth yw'r hyn y mae swyddogion polisi a Gweinidogion yn ei ystyried yn dderbyniol' (0) a 'pwy sy'n penderfynu beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth sy'n bwysig' (+3), gan eu gosod yn uwch nag unrhyw un arall o'r proffiliau.

**Mae pragmatyddion yn dangos yr anhawster o weithio gyda thystiolaeth**, gyda gwerthuso ansawdd y dystiolaeth yn anodd (+3), sut na ellir mesur yr holl dystiolaeth (+4), a sut nad oes tystiolaeth glir bob amser am yr hyn sy'n gweithio ar fater (+2). Mae dyfyniad un Pragmatydd yn crynhoi'r proffil hwn:

> *"Ar ôl bod yn y broses o lunio polisïau a derbyn ffynonellau tystiolaeth amrywiol, dydw i ddim yn meddwl fy mod erioed wedi teimlo y gallaf ddod i gasgliad ar y camau gweithredu yn hawdd o'r dystiolaeth. Mae yna farn bob amser dan sylw."*

Roedd pragmatyddion wedi'u gwasgaru ar draws sefydliadau, gyda gwahanol lefelau o addysg ac amrywiaeth eang o ran cefndiroedd proffesiynol.

## Cynhwysol

**Mae'r proffil hwn yn cynnwys cyfranogwyr sy'n credu y dylai'r hyn sy'n cyfrif fel tystiolaeth fod mor eang ac agored â phosibl**, gyda *'tystiolaeth [yw] unrhyw beth sy'n helpu i dynnu darlun cyfoethog o fater' (+4), 'tystiolaeth yw unrhyw arsylwad sy'n cefnogi cynnig' (+1), a 'thystiolaeth sy'n helpu i ateb*

*cwestiwn polisi' (+3) i gyd yn cael eu gosod yn uwch nag mewn unrhyw broffil arall. Mae un ymatebwr yn dangos y safbwynt hwn:*

> *"Bûm yn wneuthurwr polisi am ddeugain mlynedd felly mae unrhyw beth a fydd yn rhoi'r darlun cyfoethog hwnnw i chi o faes polisi yn dystiolaeth ddefnyddiol iawn, ni waeth sut y ceir gafael arni."*

Cytunodd yr ymatebwyr Cynhwysol y dylid tynnu tystiolaeth yn systematig o ystod eang o astudiaethau (+4) ac ystyriwyd bod tystiolaeth yn cynnig atebion gwrthrychol i broblemau gwleidyddol (+3), gan fod y ddau ddatganiad yn uchel. Pwysleisiodd y proffil hwn *"yr angen am sbectrwm eang o dystiolaeth, yr angen am wahanol ddulliau i gael darlun llawn."* Roeddent yn anghytuno mai tystiolaeth yw'r hyn y mae swyddogion polisi a Gweinidogion yn ei ystyried yn dderbyniol (-3) – *"Rwy'n cytuno mai dyma sy'n digwydd, ond ni ddylai fod yn wir"* – tystiolaeth sy'n adlewyrchu cysylltiadau pŵer (-2) neu bwy sy'n penderfynu beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth bwysig (-2). Ar y cyfan, pwysleisiodd y proffil hwn yr angen i dystiolaeth gynnwys ystod eang o offer, dulliau ac elfennau.

Roedd y rhai a oedd yn uniaethu â'r proffil hwn yn tueddu i weithio i Lywodraeth Cymru, a'r cefndir proffesiynol pennaf oedd polisi.

## Cymariaethau ar draws proffiliau

Mae ein hastudiaeth yn dangos sut mae **barn ein hymatebwyr am dystiolaeth yn gyd-destunol, yn gynnil ac yn amrywiol.** Er enghraifft, gan ganolbwyntio ar y datganiadau hynny a oedd wedi'u graddio'n debyg ar draws y pedwar proffil, roedd pob un yn cytuno ei bod yn bwysig esbonio'r hyn a olygwn wrth dystiolaeth (naill ai safle +1 neu +2). Roedd pob proffil yn anghytuno bod yr holl dystiolaeth yn y broses bolisi yn gyfartal (safle -3 ym mhob proffil). Mae'r ffaith bod pawb hefyd yn anghytuno bod 'tystiolaeth yn foethusrwydd y dyddiau hyn' (safle -2 i -4) a 'dim ond blwch sydd angen ei dicio ar gyfer llunwyr polisïau yw tystiolaeth' (safle -1 i -4) hefyd yn awgrymu bod y **rhan fwyaf o'n cyfranogwyr yn gwrthod bod tystiolaeth yn berfformiad neu'n ychwanegiad wrth lunio polisïau yng Nghymru.**

Roedd proffil Delfrydwr EBPM yn cynnwys y nifer fwyaf o gymwysterau gradd uwch. Gallai hyn awgrymu **cydberthynas rhwng hyd yr amser a dreuliwyd mewn hyfforddiant academaidd a chred gryfach mewn syniadau EBPM** (yn yr astudiaeth hon o leiaf). I'r gwrthwyneb, wrth gymharu hyd gwasanaeth ar draws proffiliau, roedd y proffiliau Cynhwysol (15 mlynedd) a'r Pragmatydd (11 mlynedd) yn cynnwys yr amser hiraf a dreuliwyd yn gweithio o gymharu â'r proffiliau Gwleidyddol a Delfrydwr EBPM (8 mlynedd). Gallai hyn awgrymu **po hiraf y mae rhywun yn ei dreulio yn ymdrin â chwestiynau tystiolaeth yn y 'byd go iawn', y mwyaf tueddol fyddwch chi i gael dealltwriaeth amrywiol a chyd-destunol o dystiolaeth.**

## Casgliad

Nod ein gwaith ymchwil oedd gwella dealltwriaeth o'r hyn y mae tystiolaeth yn ei olygu i wahanol weithredwyr polisïau yng Nghymru. Gan ddefnyddio methodoleg Q, mae ein hastudiaeth yn darparu ffordd o ymchwilio i sut mae gweithredwyr polisïau yn meddwl am dystiolaeth. Rydym wedi canfod sut **y gellir casglu ymddygiad tebyg tuag at dystiolaeth mewn gwahanol sefydliadau, tra gall safbwyntiau cyferbyniol – e.e. delfrydwyr EBPM yn erbyn Gwleidyddol – gyd-fyw yn yr un sefydliad – e.e. Llywodraeth Cymru**.

Mae'r math Delfrydwr EBPM yn cynnwys y nifer fwyaf o ymatebwyr (12) ond nid yw'n dominyddu, gyda nifer uwch o ymatebwyr (15) yn cael eu dosbarthu ar draws y tri phroffil arall. Mae hyn yn pwysleisio pa mor amrywiol yw agweddau gweithredwyr polisïau tuag at dystiolaeth. Canfuom hefyd fod yr **holl gyfranogwyr yn cytuno bod eu dealltwriaeth o dystiolaeth wedi newid dros amser**.

Beth yw'r gwersi o'r gwaith ymchwil? Ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud â pholisi, mae'n bwysig cydnabod bod **gan wahanol weithredwyr ganfyddiadau gwahanol o dystiolaeth, a gallent ddefnyddio ein canfyddiadau i feddwl sut y gall gwahanol ystyron o dystiolaeth effeithio ar eu gwaith.** I'r rhai sy'n ymwneud â brocera gwybodaeth (fel Canolfannau 'What Works'), mae'n bwysig deall sut mae llunwyr polisïau, pwy y maent yn ceisio dylanwadu arnynt, yn pennu beth sy'n cyfrif fel tystiolaeth. Mae ein canlyniadau'n awgrymu bod y rhan fwyaf o lunwyr polisïau'n gweld tystiolaeth fel un yn unig o nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Yn olaf, mae angen i ddarparwyr tystiolaeth (fel ymchwilwyr ac academyddion) ddeall a all gweithredwyr polisïau fod yn agored i dystiolaeth a sut, p'un a ydynt yn Ddelfrydwyr EBPM a fydd yn gwrando ar rai mathau o dystiolaeth yn unig, neu'n Bragmatyddion/Cynhwysol, sy'n gweithio mewn cyd-destun ac ar fater y maent yn ei ystyried yn hawdd ei dystiolaethu.

Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar ganfyddiadau'r gymuned bolisi yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal yr astudiaeth hon yn yr Alban ac ar lefel leol yng Nghymru i weld a yw canfyddiadau tuag at dystiolaeth yn amrywio yn ôl cyd-destun.

## Rhagor o wybodaeth

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon fel rhan o raglen ymchwil Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddefnyddio tystiolaeth a llunio polisïau effeithiol, a ariennir gan Brifysgol Caerdydd, ac mae'n wahanol i waith y Ganolfan ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Eleanor MacKillop**

eleanor.mackillop@wcpp.org.uk

**James Downe**

james.downe@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UKRI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government